# Adolygiad o drefniadau rheoli risg corfforaethol yng Nghyngor Sir Ceredigion

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Cipolwg ar yr archwiliad 4

Adroddiad manwl

Ein canfyddiadau 6

- Nodi risgiau 6
- Rheoli risgiau 7
- Monitro ac adrodd risgiau 8
- Adolygu ei drefniadau 9

Ein hargymhellion i’r Cyngor 11

Atodiadau

Atodiad 1 – Cwmpas a dulliau 13

Atodiad 2 – Cwestiynau a meini prawf archwilio 14

# Adroddiad cryno

## Cipolwg ar yr archwiliad

### Yr hyn y gwnaethom edrych arno

Rheoli risg i lywodraeth leol yw'r broses o nodi, asesu a lliniaru risgiau a allai effeithio ar gyflawni amcanion strategol cynghorau[1]. Yn yr adolygiad hwn, fe wnaethom edrych ar ba un a yw trefniadau rheoli risg corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion yn cefnogi cyflawniad ei amcanion strategol. Mae hyn yn cynnwys nodi, rheoli, monitro ac adrodd risgiau. Ni wnaethom edrych ar reoli risg ar lefel adrannau neu brosiect.

### Pam mae hyn yn bwysig

Mae rheolaeth risg effeithiol mewn llywodraeth leol yn bwysig gan y gall helpu i wella cynllunio a blaenoriaethu strategol, sicrhau y gall gwasanaethau barhau i gael eu darparu, ac y gall cynghorau gyflawni eu hamcanion strategol. Heb drefniadau rheoli risg effeithiol, gallai cyngor fethu cyfleoedd i wella canlyniadau i'w trigolion. Dylai rheolaeth risg effeithiol helpu cynghorau i ymateb mewn ffordd ystwyth i'r heriau sy'n eu hwynebu. Mae rheoli risg yn rhan hanfodol o lywodraethu ac arweinyddiaeth, ac yn hollbwysig i sut y mae'r sefydliad yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli ar bob lefel[2].

### Yr hyn yr ydym wedi ei ganfod

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i gryfhau ei drefniadau rheoli risg. Mae ganddo fframwaith rheoli risg cyfredol sy'n amlygu pwysigrwydd integreiddio rheoli risg busnes yn llawn yn niwylliant ac arferion gwaith y Cyngor. Fe wnaethom ganfod rhai meysydd i'w gwella a fyddai'n helpu i gryfhau gallu'r Cyngor ymhellach i ddefnyddio rheolaeth risg wrth gyflawni ei amcanion strategol. Mae'r rhain yn cynnwys nodi disgrifiadau risg yn fwy eglur, diffinio ei barodrwydd i dderbyn risg a'i lefelau goddefiant a gwella ehangder gwaith adrodd.

[1] O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i gynghorau yng Nghymru osod a chyhoeddi amcanion llesiant. I'r mwyafrif o gynghorau, mae'r rhain bellach wedi'u mabwysiadu fel amcanion strategol y sefydliad.

[2] Llywodraeth y DU (2023) Y Llyfr Oren – Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

Fe wnaethom bedwar argymhelliad â’r nod o wella trefniadau rheoli risg y Cyngor. Mae’r rhain yn cwmpasu nodi, rheoli, monitro ac adrodd risgiau, yn ogystal â gwerthusiad y Cyngor o’i drefniadau.

# Adroddiad manwl

## Ein canfyddiadau

### Mae’r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau rheoli risg, ond gellid gwella rhai meysydd i gefnogi cyflawniad ei amcanion strategol

#### Nodi risgiau

**Y broses o nodi a chofnodi risgiau posibl a allai effeithio ar gyflawni amcanion y Cyngor yw nodi risgiau.**

1 **Mae gan y Cyngor fframwaith cyfredol ar gyfer rheoli risg**. Mae’r fframwaith a’r strategaeth yn gwneud pwysigrwydd integreiddio rheolaeth risg busnes yn llawn yn niwylliant ac arferion gwaith y Cyngor yn eglur. Er ei bod yn gadarnhaol bod y Cyngor wedi nodi’n eglur pwysigrwydd cysylltu rheolaeth risg â chyflawni amcanion, mae’n llai eglur sut mae hyn yn cael ei wneud yn ymarferol. Ni welsom dystiolaeth o’r Cyngor yn mynd trwy broses i nodi’n strategol y risgiau i gyflawniad ei amcanion llesiant. Mae dangos sut mae rheoli risg yn cyd-fynd ag amcanion strategol yn bwysig, gan ei fod yn helpu i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio’n effeithiol ac yn effeithlon i gyflawni nodau strategol, tra’n lliniaru bygythiadau posibl a manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd.

2 **Nid oes gan y Cyngor gofrestr cyfleoedd.** Mae Polisi Rheoli Risg y Cyngor yn nodi, ‘Yn y pen draw, bydd rheoli risg yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar ei gyfleoedd ac yn lleihau effaith y risgiau y mae'n eu hwynebu…’ Rhoddodd y Cyngor enghreifftiau o fentrau buddsoddi i arbed trwy ei raglen ‘gwneud pethau’n wahanol’. Fodd bynnag, nid yw cofrestr risg y Cyngor yn cynnwys cyfleoedd a nodwyd. Gall defnyddio cofrestr cyfleoedd corfforaethol helpu’r Cyngor i ddod o hyd i ddulliau rhagweithiol ac ataliol o ymdrin â risg ac arbedion cyllideb.

3 **Mae’r Cyngor yn gwneud gwaith sganio’r gorwel**[3]. Mae hyn yn rhan o’i gylch cynllunio busnes ac wedi’i hysbysu gan drafodaethau rheolaidd yn y Grŵp Arweinyddiaeth. Caiff sesiynau sganio’r gorwel cyfnodol eu cynnal gan ei ddarparwr yswiriant hefyd. Mae datganiad sganio’r gorwel y Cyngor yn cyfeirio at adroddiadau risg byd-eang a chenedlaethol y mae’n eu hystyried yn rhan o’i waith sganio’r gorwel. Mae sicrhau bod gan y Cyngor ddull cyson o nodi risgiau a chyfleoedd ar draws gorwel tymor hwy yn bwysig i helpu i sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ag effeithiau byrdymor a hirdymor mewn golwg.

[3] Mae sganio’r gorwel yn barhaus ac yn ddynamig yn helpu’r sefydliad i ystyried senarios a allai gyflwyno risgiau a chyfleoedd sy’n dod i’r amlwg.

4 **Nid yw disgrifiadau risg a'u heffaith bosibl ar amcanion strategol y Cyngor wedi'u nodi yn eglur**. Mae'r Cyngor yn diffinio ei risgiau trwy ddarparu disgrifiad o risg, rhoi tystiolaeth o'r risg ac yna rhestru'r canlyniadau posibl. Fodd bynnag, byddai mwy o eglurder ynghylch disgrifiadau risg yn helpu i sicrhau bod swyddogion ac Aelodau yn eglur ynghylch y risg benodol y mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â hi. Mae diffinio risgiau yn eglur o safbwynt eu heffaith bosibl ar amcanion strategol yn bwysig i greu dealltwriaeth gyffredin o wraidd y risg ac i gynorthwyo'r gwaith o nodi camau rheoli neu liniaru priodol.

5 **Nid yw'r Cyngor yn gwahaniaethu rhwng risgiau a phroblemau yn ei gofrestr risg[4]**. Mae Fframwaith Rheoli Risg y Cyngor yn diffinio'r gwahaniaeth rhwng risgiau a phroblemau. Fodd bynnag, nid yw ei gofrestr risg yn gwahaniaethu yn eglur rhyngddynt. Byddai gwahaniaethu rhwng risgiau a phroblemau yn helpu'r Cyngor i sicrhau ymateb effeithiol, i weithredu rheolaethau i atal neu leihau'r tebygolrwydd y bydd risg yn codi, neu i sefydlu mesurau lliniaru i sicrhau bod effaith problem cyn lleied â phosibl ar ôl iddi ddigwydd eisoes.

6 **Mae gan y Cyngor ddiwylliant sy'n helpu i gefnogi ei reolaeth risg**. Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth yn cyfarfod bob wythnos, ac mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn eitem sefydlog. Mae'r Cabinet a'r Grŵp Arweinyddiaeth hefyd yn adolygu'r gofrestr risg yn fisol. Dywedodd y Swyddogion a'r Aelodau y gwnaethom siarad â nhw bod diwylliant agored o ran trafodaethau rheoli risg. Mae hyn yn bwysig i hybu dull rhagweithiol o nodi a rheoli risg.

## Rheoli risgiau

**Mae rheoli risgiau yn golygu asesu a mynd i'r afael â risgiau a phroblemau posibl a allai effeithio ar amcanion y Cyngor. Mae'n golygu gwerthuso tebygolrwydd ac effaith bosibl y risgiau a'r problemau a datblygu a gweithredu rheolaethau a chamau lliniaru effeithiol.**

7 **Nid yw'r Cyngor yn asesu effeithiau ei risgiau yn systematig**. Caiff risgiau eu hasesu gan ddefnyddio eu gwybodaeth broffesiynol ac unrhyw ddata gwasanaeth sydd ar gael. Gallai'r Cyngor ystyried defnydd pellach o ddulliau dadansoddi risg i asesu a gwerthuso ei risgiau. Byddai asesiad mwy trylwyr o effeithiau posibl risgiau yn galluogi'r Cyngor i ddeall difrifoldeb a thebygolrwydd posibl risgiau yn well, gan ganiatáu iddo flaenoriaethu camau gweithredu a neilltuo adnoddau yn well.

[4] Digwyddiad posibl yn y dyfodol yw risg. Mae'n rhywbeth a allai ddigwydd ond nad yw wedi digwydd eto. Mae problem yn golygu problem sydd eisoes wedi codi neu'n digwydd ar hyn o bryd.

8 Nid yw’r Cyngor wedi diffinio yn eglur ei barodrwydd i dderbyn risg na’i lefelau goddefiant[5]. Mae ei fframwaith rheoli risg yn datgan bod ‘pob Cofrestr Risg Gorfforaethol yn nodi sgôr archwaeth risg y mae'r awdurdod yn fodlon ei oddef’. Fodd bynnag, nid yw’r wybodaeth hon wedi ei chynnwys ar y gofrestr risg. Mae ‘sgôr targed ar gyfer risg’ wedi’i gynnwys ond nid yw’n eglur sut mae hwn yn cysylltu â pharodrwydd i dderbyn risg a goddefiant. Nid oedd y Swyddogion a’r Aelodau y gwnaethom siarad â nhw yn gallu cyfleu dull y Cyngor yn y maes hwn yn eglur. Bydd datganiadau o barodrwydd i dderbyn risg a goddefiant a ddeallir ar draws y Cyngor yn gosod paramedrau i unigolion weithredu ac yn caniatáu i risgiau gael eu cymryd sy’n cefnogi cyflawniad amcanion strategol. Heb hyn, mae’n bosibl y gallai’r Cyngor fod yn amlygu ei hun i fwy o risg nag yr oedd yn ei fwriadu.

9 **Mae trefniadau’r Cyngor ar gyfer penderfynu ar godi a gostwng lefelau risg yn eglur**. Mae ganddo sbardun rhifol ar gyfer ystyriaeth o godi/gostwng lefelau risgiau gan y Grŵp Arweinyddiaeth. Gall ddiwygio’r meini prawf rhifol os bydd risg yn creu problemau eraill fel bod y tu hwnt i gwmpas rheoli gwasanaeth neu ddigwyddiadau cynyddol. Mae meini prawf a rhesymeg eglur ar gyfer codi a gostwng lefelau risg helpu i gefnogi trefniadau mwy effeithlon ac effeithiol.

10 **Nid yw’r Cyngor yn dilyn dull cwbl integredig o reoli risg**. Trafodir risgiau trawsbynciol yn y Grŵp Arweinyddiaeth, ond nid yw’r Cyngor yn dangos ystyriaeth o effaith gyfunol ei risgiau corfforaethol i gyflawniad ei amcanion llesiant. Mae mabwysiadu dull integredig o reoli risg yn helpu i nodi risgiau rhyng-gysylltiedig, agweddau agored i niwed posibl, a chyfleoedd i wneud penderfyniadau gwell a lliniaru risg.

11 **Fe wnaeth y Cyngor adolygu gwybodaeth risg ei bartneriaid cyflawni allweddol ym mis Chwefror 2025**. Mae deall effaith risgiau partneriaid yn bwysig gan fod risgiau yn aml yn cael effeithiau trawsbynciol sy’n ymestyn ar draws ffiniau sefydliadol. Mae nodi risgiau gan bartneriaid cyflawni allweddol ar y cyd yn helpu i roi amlygrwydd strategol o risgiau a chyfleoedd posibl ac yn helpu i osgoi canlyniadau anfwriadol.

## Monitro ac adrodd risgiau

**Mae monitro risg yn helpu i asesu effeithiolrwydd triniaeth risg y Cyngor. Dylai monitro gynorthwyo’r ddealltwriaeth o ba un a yw’r proffil risg yn newid a sut, ac i ba raddau y mae rheolaethau mewnol yn gweithredu fel y bwriadwyd i roi sicrwydd ynghylch rheoli risgiau i lefel dderbyniol o ran cyflawni amcanion sefydliadol[6].**

[5] Diffinnir parodrwydd i dderbyn risg fel cyfanswm a math y risg y mae’r Cyngor yn barod i fynd ar ei drywydd, ei gadw neu ei gymryd. Lefelau goddefiant yw’r lefelau o risg y mae’r Cyngor yn ceisio gweithredu yn unol â nhw.

[6] Llywodraeth y DU (2023), Y Llyfr Oren – Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau

**Mae adrodd gwybodaeth risg brydlon, gywir a pherthnasol yn bwysig i wella ansawdd proses gwneud penderfyniadau seiliedig ar risg effeithiol ac i gynorthwyo'r gwaith o reoli a goruchwylio trefniadau risg y Cyngor.**

12 **Mae'r Cyngor yn adrodd ar reoli risg yn rheolaidd, ond nid yw camau risg bob amser yn CAMPUS[7] nac wedi'u costio**. Ceir adrodd rheolaidd i'r Grŵp Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar risg. Mae risgiau hefyd yn cael eu hadolygu weithiau gan bwyllgorau trosolwg a chraffu. Fodd bynnag, yn yr adroddiadau risg, nid yw camau bob amser yn CAMPUS nac wedi'u costio. Mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn gallu asesu effeithiolrwydd y camau y mae'n eu cymryd, monitro cynnydd yn briodol, na phenderfynu ar y ffordd orau o neilltuo adnoddau.

13 **Nid yw'r Cyngor yn adrodd yn gyhoeddus ar risg, perfformiad a chyllideb mewn ffordd integredig**. Rhennir gwybodaeth am risg a pherfformiad gydag Aelodau'r Cabinet, cadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau craffu ac arweinwyr yr wrthblaid trwy Fwrdd Perfformiad y Grŵp Arweinyddiaeth. Fodd bynnag, nid yw'r trafodaethau hyn yn y parth cyhoeddus. Adroddir ar risg a chyllideb yn gyhoeddus bob tri mis. Adroddir ar berfformiad corfforaethol, yn y parth cyhoeddus, yn flynyddol yn yr adroddiad hunanasesu. Mae'r diffyg adrodd cyhoeddus integredig ar risg, perfformiad a chyllideb yn golygu ei bod yn anodd i'r holl Aelodau Etholedig a'r cyhoedd gael dealltwriaeth o'r darlun cyfansawdd.

## Adolygu ei drefniadau

**Mae adolygu trefniadau yn golygu gwerthuso trefniadau rheoli risg y Cyngor yn systematig i sicrhau eu bod yn bodloni eu hamcanion, yn cynnig gwerth am arian ac yn nodi meysydd i'w gwella.**

**Mae gwersi a ddysgwyd yn cyfeirio at y safbwyntiau a'r wybodaeth a gafwyd o weithredu trefniadau rheoli risg y Cyngor a sicrhau bod y rhain yn cael eu cofnodi a'u hadolygu i ysgogi gwelliant.**

14 **Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad estynedig o'i fframwaith pan fydd yn diweddaru ei ddogfennau polisi, ond nid yw'n gwerthuso yn llawn y gwerth y mae ei drefniadau rheoli risg yn ei gynnig.** Mae rhoi system ar waith i werthuso ei ddull rheoli risg yn bwysig i ddeall sut mae'r trefniadau hynny yn helpu i gynnig gwerth am arian.

15 **Mae'r Cyngor yn rhannu gwersi a ddysgwyd am reoli risg trwy drafodaeth yn ei Grŵp Arweinyddiaeth a'i weithdai rheolwyr corfforaethol.** Mae hyn yn

[7] CAMPUS – cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol.

bwysig fel nad yw’n methu cyfleoedd i ddysgu o lwyddiannau a methiannau, i gefnogi proses gwneud penderfyniadau fwy cytbwys ac o bosibl gwella ymdrechion lliniaru risg mewn gweithgareddau yn y dyfodol.

# Ein hargymhellion i'r Cyngor

**Arddangosyn 1: ein hargymhellion i'r Cyngor**

| **Argymhellion** | |
| --- | --- |
| **A1** | Mae'r adroddiad hwn yn amlygu meysydd i'w gwella yn **nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer nodi risgiau a chyfleoedd corfforaethol.** I fynd i'r afael â hyn dylai'r Cyngor:<br>1.1 sefydlu trefniadau i ddangos ystyriaeth eglur o risgiau i gyflawni ei amcanion strategol/llesiant (paragraff 1);<br>1.2 sefydlu trefniadau i nodi cyfleoedd yn ogystal â risgiau (paragraff 2);<br>1.3 diffinio risgiau yn eglur, fel ei bod yn eglur beth yw'r risgiau y mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â nhw a pham (paragraff 4); a<br>1.4 gwahaniaethu rhwng problemau (pethau sy'n digwydd nawr) a risgiau (pethau a allai ddigwydd yn y dyfodol) i sicrhau bod y camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn adlewyrchu'r gwahaniaeth (paragraff 5). |
| **A2** | Mae'r adroddiad hwn yn amlygu meysydd i'w gwella yn **nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli risgiau corfforaethol. I** fynd i'r afael â hyn dylai'r Cyngor:<br>2.1 ddatblygu ymhellach trefniadau i asesu effeithiau risgiau yn systematig gan ddefnyddio gwybodaeth gyfredol a dibynadwy (paragraff 7);<br>2.2 diffinio ei lefelau parodrwydd i dderbyn risg a goddefiant risg yn eglur a sicrhau bod gweithrediad a gwerth y rhain i'w drefniadau rheoli risg wedi'u deall gan swyddogion ac Aelodau (paragraff 8); a<br>2.3 dangos ei ddealltwriaeth o'r rhyngberthynas rhwng ei risgiau ei hun a rhai ei bartneriaid i sicrhau bod y camau rheoli y mae'n eu cymryd yn briodol (paragraffau 10 ac 11). |
| **A3** | Mae'r adroddiad hwn yn amlygu meysydd i'w gwella yn **nhrefniadau'r Cyngor i fonitro ac adrodd risgiau**. I fynd i'r afael â hyn dylai'r Cyngor:<br>3.1 disgrifio'r amau y mae'n eu cymryd i reoli risgiau gan sicrhau eu bod yn gymesur CAMPUS ac wedi'u costio fel ei fod yn gallu asesu effaith a chanlyniadau'r mesurau lliniaru (paragraff 12); ac<br>3.2 adrodd yn y parth cyhoeddus mewn ffordd sy'n rhoi darlun cyffredinol i Aelodau o reoli risg, perfformiad a monitro cyllidebau (paragraff 13). |

**Argymhellion**

**A4** Mae'r adroddiad hwn yn amlygu meysydd i'w gwella yn null y Cyngor o **adolygu ei drefniadau** ar gyfer rheoli risg. I fynd i'r afael â hyn, dylai'r Cyngor werthuso ac adrodd yn rheolaidd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli risg (paragraff 14).

# Atodiad 1

## Cwmpas a dulliau

### Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn oedd:

- helpu i gyflawni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol i fodloni ei hun bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Sail gyfreithiol

Fe wnaethom gynnal yr archwiliad hwn o dan y dyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 17 2(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Ein dulliau archwilio a phryd y cynhaliwyd yr archwiliad gennym

Cynhaliwyd yr archwiliad hwn gennym rhwng Chwefror a Mai 2025, trwy:

- adolygu dogfennau perthnasol, er enghraifft, papurau strategaeth rheoli risg, canllawiau i Aelodau, a deunyddiau hyfforddi;
- arsylwi sampl o gyfarfodydd y pwyllgor llywodraethu ac archwilio; a
- chynnal cyfweliadau gyda swyddogion allweddol a'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am reoli risg.

Mae ein canfyddiadau wedi'u cyfyngu i'n dadansoddiad o'r wybodaeth uchod.

# Atodiad 2

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

**Cwestiwn cyffredinol:** A oes gan y Cyngor drefniadau rheoli risg priodol sy'n cynorthwyo'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol?

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 1. A oes gan y Cyngor fframwaith rheoli risg eglur wedi'i gefnogi gan ddiwylliant rheoli risg effeithiol? | 1.1 A oes gan y Cyngor fframwaith rheoli risg cynhwysfawr sy'n cyd-fynd â'i amcanion strategol? | • Mae fframwaith rheoli risg y Cyngor yn nodi:<br>– Swyddogaethau a chyfrifoldebau<br>– Gofynion adrodd a monitro<br>– Trefniadau llywodraethu<br>– Amserlen ar gyfer diweddariadau i'r gofrestr risg<br>– Y broses codi a gostwng lefelau risg; a<br>– Yn gyfredol (h.y. ddim y tu hwnt i'w ddyddiad adolygu penodedig) |
| | 1.2 A oes gan y Cyngor ddiwylliant rheoli risg effeithiol? | • Mae arweinwyr uwch yn ysgogi pwyslais ar bwysigrwydd rheoli risg yn y Cyngor.<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried rheoli risg fel rhan annatod o sut mae'r Cyngor yn gweithredu.<br>• Mae arweinwyr uwch yn hyrwyddo diwylliant sy'n annog deialog agored ynghylch risg.<br>• Mae trefniadau llywodraethu a goruchwylio'r Cyngor yn cynnwys rheoli risg. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
| --- | --- | --- |
| | | • Mae aelodau a swyddogion wedi derbyn hyfforddiant mewn rheolaeth risg sy'n berthnasol i'w swyddi.<br>• Mae gan swyddogion ac aelodau ddealltwriaeth eglur o'u swyddogaeth o fewn y fframwaith rheoli risg.<br>• Mae diwylliant y Cyngor yn cefnogi'r broses o nodi a rheoli risgiau yn effeithiol. |
| | 1.3 A yw'r Cyngor wedi diffinio ei lefelau parodrwydd i dderbyn risg a goddefiant yn eglur? | • Mae'r Cyngor yn cyfleu'n eglur ei lefelau o barodrwydd i dderbyn risg a goddefiant.<br>• Mae parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg yn cyd-fynd â'i uchelgeisiau strategol.<br>• Mae'r Cyngor yn seilio ei lefelau parodrwydd i dderbyn risg a goddefiant ar wybodaeth berthnasol a chywir.<br>• Mae'r Cyngor yn adolygu ei barodrwydd i dderbyn risg i adlewyrchu newidiadau perthnasol ac arwyddocaol i'r amgylchedd mewnol ac allanol. |
| | 1.4 A yw'r Cyngor yn mabwysiadu dull hirdymor o reoli risg? | • Mae'r Cyngor yn sganio'r gorwel i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg a bygythiadau yn y dyfodol, yn ogystal â chyfleoedd.<br>• Gall y Cyngor ddangos sut mae ei waith sganio'r gorwel yn dylanwadu ar ei reolaeth o risg.<br>• Mae'r Cyngor yn mabwysiadu dull ataliol sy'n canolbwyntio ar y dyfodol o ymdrin â risg. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| 2. A yw'r Cyngor yn nodi, rheoli, monitro a herio ei risgiau yn effeithiol? | 2.1 A yw'r Cyngor yn nodi ac yn asesu effeithiau risg yn drylwyr? | • Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i asesu a gwerthuso risg (dadansoddeg risg, deallusrwydd artiffisial, modelu risg, dadansoddiad senario a sensitifrwydd, a phrofion straen).<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio gwybodaeth/data dibynadwy i asesu maint, tebygolrwydd ac effaith bosibl risgiau.<br>• Mae risgiau yn adlewyrchu risgiau arwyddocaol i gyflawni'r amcanion llesiant a nodau strategol. |
| | 2.2 A oes gan y Cyngor ddull integredig o reoli risg? | • Mae'r Cyngor yn mapio rhyngddibyniaethau a chysylltiadau ar gyfer risgiau trawsbynciol.<br>• Mae'r Cyngor yn nodi ac yn asesu effaith gyfunol risg ar draws y sefydliad.<br>• Mae'r Cyngor yn nodi gwybodaeth risg gan bartneriaid darparu allweddol a sefydliadau sector cyhoeddus eraill ac yn ystyried sut y gallai'r risgiau hyn effeithio ei allu i gyflawni ei amcanion strategol a rhai ei bartneriaid.<br>• Mae'r Cyngor yn asesu amrywiaeth o effeithiau a chanlyniadau ar gyfer risgiau o fewn rheolaeth y Cyngor a'r tu allan i'w reolaeth. |
| | 2.3 A yw trefniadau'r Cyngor yn rhoi sicrwydd bod camau digonol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â risgiau? | • Ceir perchnogaeth ac atebolrwydd eglur o ran risgiau.<br>• Mae ymatebion a chamau risg yn eglur ac yn cyd-fynd â pharodrwydd y Cyngor i dderbyn risg a'i oddefiant, ac wedi'u costio.<br>• Caiff camau risg eu diweddaru'n rheolaidd.<br>• Caiff camau lliniaru eu hasesu ar gyfer eu heffeithiolrwydd o ran newid sgoriau risg. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini Prawf |
|---|---|---|
| | | • Ceir meini prawf eglur ar gyfer codi/gostwng lefelau risg a thrywydd archwilio eglur. |
| | 2.4 A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adrodd ar reoli risg yn rheolaidd? | • Mae'r Cyngor yn defnyddio sgoriau/asesiadau ystyrlon i gefnogi'r broses o fonitro ac adrodd risgiau.<br>• Mae cofrestrau risg yn gynhwysfawr ac yn gyfredol.<br>• Gall y Cyngor gyfleu'n eglur pam mae risgiau ar y gofrestr neu lle nad ydynt, mae hyn wedi'i esbonio a'i gofnodi'n eglur.<br>• Mae arweinwyr uwch yn adolygu risgiau yn rheolaidd ac yn brydlon<br>• Mae aelodau etholedig yn derbyn adroddiadau risg mewn ffordd brydlon, dryloyw a chywir.<br>• Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnig trosolwg a her effeithiol o'r wybodaeth risg. |
| 3. A oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i werthuso effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli risg? | 3.1 A yw'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau rheoli risg fel mater o drefn? | • Mae'r Cyngor yn gwerthuso ei drefniadau rheoli risg ac yn nodi bylchau a meysydd i'w datblygu, gan gynnwys meincnodi yn erbyn arferion sefydliadau eraill.<br>• Mae'r Cyngor yn ystyried yn weithredol gwerth am arian ei drefniadau rheoli risg. |
| | 3.2 A yw'r Cyngor yn rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd fel mater o drefn i wella ei drefniadau rheoli risg? | • Mae'r Cyngor yn nodi ac yn rhannu gwersi a ddysgwyd ac arferion da o ran rheoli risg ar draws y Cyngor. |

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd CF10 4BZ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.